

Adroddiad Arolygu o Bractis Meddygon Teulu (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Canolfan Feddygol Forest View,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 12 Gorffennaf 2023

Dyddiad cyhoeddi: 16 Hydref 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	17
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	23
4.	Y camau nesaf	31
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	32
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	33
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	37

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ganolfan Feddygol Forest View, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 12 Gorffennaf 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC, un Adolygydd Cymheiriaid Rheolwr Practis ac un Adolygydd Cymheiriaid Meddyg Teulu. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 187 holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd 29 gan y staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Cafwyd adborth cymysg gan gleifion am y gwasanaeth a ddarperir gan y practis.

Roedd a wnelo'r prif rwystredigaethau a fynegwyd gan gleifion â'u hanhawster i allu cysylltu â'r practis a chael apwyntiad ar amser a oedd yn gyfleus iddynt. Fodd bynnag, o'r sylwadau a ddaeth i law, bu rhywfaint o welliant yn hyn o beth yn fwy diweddar.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen gwneud trefniadau i nodi cleifion sy'n ofalwyr ac i'w cyfeirio at wybodaeth a chymorth perthnasol
- Mae angen gwneud trefniadau i werthuso effeithiolrwydd y newidiadau a wnaed i'r system apwyntiadau
- Mae angen gwneud trefniadau i sicrhau bod Swyddogion Llywio Gofal yn cael eu cefnogi'n addas yn eu rolau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff yn y practis yn trin cleifion ag urddas a pharch a gwelsom fod mesurau wedi'u rhoi ar waith i amddiffyn eu preifatrwydd
- Roedd gan y practis ddull tîm amlddisgyblaethol o ddarparu gwasanaethau a gwnaethant gyflogi Uwch Ymarferydd Iechyd Meddwl, Uwch-ymarferydd Nyrso, Uwch-parafeddyg ac mae wedi cyflogi Ffisiotherapydd.
- Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a roddodd adborth wrthym eu bod wedi cael digon o amser i esbonio eu hanghenion gofal iechyd a bod y meddyg teulu wedi esbonio pethau'n dda.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Er i ni weld systemau a phrosesau yn cael eu cyflwyno gyda'r bwriad o roi gofal diogel ac effeithiol i gleifion, roedd diffyg tystiolaeth i ddangos effeithiolrwydd y rhain.

Gwnaethom nodi bod angen gwelliannau mewn perthynas â gofal diogel ac effeithiol ac roedd angen i'r practis gymryd camau ar unwaith mewn perthynas â chyfarpar a chyffuriau brys.

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Roedd angen i'r practis roi manylion i AGIC o'r camau gweithredu i ddangos bod staff yn ymwybodol o'r broses gywir ar gyfer cynnal gwiriadau o'r cyfarpar brys, roedd y staff yn ymwybodol o leoliad yr holl gyfarpar a chyffurfiau brys ac yn monitro cydymffurfiaeth â'r broses. Cyflwynwyd cynllun gwella addas ar unwaith i AGIC o fewn yr amserlen y cytunwyd arni.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen cynnal asesiad risg cyffredinol a'i gofnodi, a rhoi cynllun gweithredu ar waith i reoli unrhyw risgiau a nodwyd.
- Mae angen gwneud trefniadau i ddangos arferion gorau. Caiff canllawiau cenedlaethol a phroffesiynol eu trafod yn rheolaidd a'u rhannu â'r tîm clinigol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd safle'r practis i'w weld mewn cyflwr da, yn lân ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg
- Cafodd trefniadau effeithiol eu disgrifio a'u dangos mewn perthynas â diogelu
- Gwelsom system rheoli cofnodion effeithiol ac roedd cofnodion y cleifion yn gwnaethom edrych arnynt yn glir, yn ddarllenadwy ac o safon dda.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd Rheolwr Practis Clinigol a Rheolwr Arferion Busnes wedi'u penodi ac roeddent yn gyfrifol am weithrediad y practis o ddydd i ddydd. Roedd y ddau yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau yn y practis.

Ar adeg ein harolygiad, disgrifiodd y meddygon teulu partner a'r rheolwyr fod y practis mewn cyfnod o drawsnewid. Gwnaethant ddisgrifio'r heriau yr oeddent yn eu hwynebu a'r camau a oedd yn cael eu cymryd i wneud gwelliannau lle roedd angen.

Rhoddodd y staff adborth cymysg ar reolaeth ac arweinyddiaeth yn y practis.

Roedd polisiâu cynhwysfawr a chyfredol ar gael i helpu'r staff i ymgymryd â'u rolau. Fodd bynnag, roedd y cofnodion yn dangos nad oedd dros 50% o'r staff wedi darllen rhai o'r polisiâu.

Gwelsom lefel dda o gydymffurfio ar gyfer hyfforddiant gorfodol ar y cyfan. Fodd bynnag, nid oedd pob aelod o'r staff wedi'i restru ar y matrices hyfforddiant a

ddarparwyd i ni. Yn ogystal, roedd disgwyl i'r rhan fwyaf o'r staff fynychu hyfforddiant diweddar ar y rhan fwyaf o'r pynciau ymhen un mis neu lai.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen cymryd camau i ymateb i atebion llai ffafriol y staff a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn.
- Mae angen gwneud trefniadau i ddangos bod y staff yn ymwybodol o gynnwys polisiâu a gweithdrefnau ysgrifenedig y practis
- Mae angen cymryd camau i sicrhau bod staff newydd yn cael eu recriwtio'n ddiogel ac i ddangos bod y staff presennol yn addas i weithio yn y practis
- Mae angen cymryd camau i sicrhau y caiff yr holl staff eu cofnodi ar y matrices hyfforddiant
- Mae angen gwneud trefniadau i ddangos effeithiolrwydd y gwelliannau a roddwyd ar waith gan y practis a sut mae adborth wedi'i rannu â thîm ehangach y practis.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd polisiâu ysgrifenedig cynhwysfawr a chyfredol ar gael i helpu'r staff gyda'u gwaith.
- Roedd y Rheolwr Practis Clinigol yn dangos dealltwriaeth dda o'r Ddyletswydd Gonestrwydd a dywedodd y staff wrthym eu bod yn deall eu rolau o ran cyrraedd safonau'r Ddyletswydd.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Er i rai o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn yr holiadur i gleifion AGIC (71/180) ddweud bod y gwasanaeth a gawsant yn 'dda iawn' neu'n 'dda', dywedodd y rhan fwyaf (109/180) fod y gwasanaeth yn 'wael' neu'n 'wael iawn'.

Ymhlith rhai o'r sylwadau a gawsom oedd y canlynol:

“Mae'n anodd cael apwyntiadau.”

“Mae'n anodd mynd heibio i'r dderbynfa, ond pan fyddwch yn cael gweld meddyg, mae'r gofal yn arbennig.”

“Mae wedi bod yn anodd cysylltu â'r feddygfa dros y ffôn ac nid yw'n hawdd cael apwyntiad bob amser. Fodd bynnag, roedd y profiad diwethaf a gefais wedi gwella cryn dipyn. Pan fyddaf yn cael gweld y meddyg teulu, mae'r driniaeth a roddir yn 100%.”

“Mae'r gwasanaeth wedi gwella dros yr wythnosau diwethaf. Roeddwn i bellach yn gallu cael apwyntiad wyneb yn wyneb ar adeg addas i mi.”

“Rwy'n teimlo mai'r prif broblemau yw gallu trefnu'r apwyntiadau cychwynnol i weld meddyg. Dryswch ynghylch presgripsiynau rheolaidd ac er i mi ffonio a ffonio'r feddygfa, nid oeddwn yn gallu cael gafael ar fy nghanlyniadau ar ôl profion yn yr ysbyty.”

“Roedd y meddygon a welais yn gwrtais a chymwys. Fodd bynnag, mae cael apwyntiad wedi bod yn anodd dros ben.”

“Trafferth wrth gael ateb i alwadau ffôn ac mae'n cymryd wythnosau i gael apwyntiad. Rwy'n teimlo y dylai fod gan y derbynyddion rywfaint o brofiad mewn gofal iechyd. Rwy'n teimlo'n anghysurus yn dweud fy mhroblem wrthynt cyn gweld meddyg.”

Nid atebodd pob un o'r ymatebwyr bob cwestiwn yn yr holiadur. Ar gyfer rhai cwestiynau, dywedodd yr ymatebwyr wrthym naill ai nad oeddent yn gymwys iddynt neu roeddent yn methu rhoi barn h.y. nid oeddent yn siŵr.

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu Iechyd

Gwelsom fod gwybodaeth ysgrifenedig yn cael ei harddangos yn adeilad y practis yn rhoi gwybod i gleifion am y gwasanaethau eraill y gallent gael gafael arnynt am gyngor iechyd neu driniaeth, fel eu fferyllfa leol, GIG 111 a'r Uned Mân Anafiadau. Pan ofynnwyd a oedd deunydd hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion yn cael ei arddangos, dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn (ac a oedd yn teimlo ei fod yn berthnasol iddynt neu eu bod yn gallu rhoi barn) yn holiadur cleifion AGIC fod deunydd yn cael ei arddangos.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod cyngor hybu iechyd a gwybodaeth am gyflyrau cronig yn cael eu cynnig i gleifion mewn amrywiaeth o gyfryngau.

Dywedwyd wrthym y gallai cleifion gael cynnig apwyntiadau ffordd o fyw gyda'r gweithiwr cymorth gofal iechyd neu gydymaith y meddyg, yn dilyn atgyfeiriad gan y meddyg teulu. Yn ogystal, roedd y practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau a chlinigau fel y rhai ar gyfer brechlynnau, rheoli afiechydon cronig, monitro warffarin ac archwilio clwyfau.

Gwelsom y gallai cleifion gyda mynediad i'r rhynggrwyd ddod o hyd i wybodaeth am amrywiaeth o gyflyrau iechyd ar wefan y practis. Fodd bynnag, roedd rhai o'r dolenni ar adran Fideo Hunan-gymorth y wefan 'wedi torri' ac felly, ni ellid edrych ar y fideos hyn. Dylai'r practis edrych ar gynnwys ei wefan a chymryd camau fel y bo'n briodol i sicrhau bod dolenni'n gweithio'n gywir.

Dywedwyd wrth gleifion heb fynediad i'r rhynggrwyd gysylltu â'r practis er mwyn i aelod o'r tîm allu rhoi cymorth.

Pan ofynnwyd a gynigiwyd cyngor ar ffordd iach o fyw iddynt, dywedodd rhai o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn (ac a oedd yn teimlo ei fod yn berthnasol iddynt) yn holiadur cleifion AGIC (50/134) ei fod wedi. Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (84/134) wrthym nad oeddent wedi cael cynnig cyngor. O gofio'r ymateb hwn, dylai'r practis ystyried archwilio a oedd angen rhagor o gamau gweithredu i sicrhau y caiff cleifion gyngor perthnasol ar ffordd iach o fyw, lle y bo'n briodol.

Dywedodd rhai o'r cleifion (38/178) wrthym eu bod yn ofalwr i rywun. Fodd bynnag, dywedodd ychydig gleifion wrthym eu bod wedi cael asesiad o'u hanghenion eu hunain fel gofalwr (2/40) ac wedi cael manylion sefydliadau neu rwydweithiau cymorth a all roi gwybodaeth a chyngor (2/40).

Yn ogystal, roedd yr ymatebion gan staff a oedd wedi cwblhau holiadur AGIC yn nodi nad oedd pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r trefniadau sydd ar waith i helpu gofalwyr. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff wrthym nad oeddent yn siŵr a oedd y practis yn cadw cofrestr o ofalwyr (19/28), a oedd gan y practis hyrwyddwr gofal (20/28), a oedd gofalwyr yn cael asesiad o'u hanghenion (17/27) ac a oedd gofalwyr yn cael eu cyfeirio at sefydliadau cymorth (18/28). Roedd hyn yn golygu efallai na chafodd gofalwyr yr help a'r cymorth sydd ar gael iddynt.

Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i nodi'r cleifion hynny gyda chyfrifoldebau gofalwr ac i roi gwybodaeth a chynghor iddynt fel y bo'n briodol.

Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i godi ymwybyddiaeth y staff o drefniadau'r practis sydd ar waith i gefnogi gofalwyr.

Gofal urddasol a pharchus

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom staff y practis yn trin y cleifion a'u cynrychiolwyr â pharch a charedigrwydd.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn (ac a oedd yn teimlo ei fod yn berthnasol iddynt) yn holiadur cleifion AGIC (127/170) wrthym eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC (27/29) wrthym eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth yr oeddent yn eu rhoi i gleifion.

Gwelsom fod drysau'r ystafelloedd clinigol yn cael eu cau pan oedd cleifion yn cael eu gweld gan feddygon teulu neu staff gofal ieuchyd eraill, a oedd yn hyrwyddo eu preifatrwydd ac urddas. Gwelsom hefyd fod gan ystafelloedd clinigol lenni preifatrwydd yr oedd modd eu defnyddio i roi preifatrwydd ychwanegol pan oedd cleifion yn cael eu harchwilio. Roedd ystafelloedd clinigol wedi'u lleoli i ffwrdd o'r dderbynfa a'r ystafell aros, a oedd yn helpu i atal pobl yn yr ystafell aros rhag clywed sgysiau yn ddamweiniol.

Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn (ac a oedd yn teimlo ei fod yn berthnasol iddynt) yn holiadur cleifion AGIC (84/98) wrthym fod mesurau wedi'u cymryd i ddiogelu eu preifatrwydd. Yn yr un modd, dywedodd y mwyafrif o'r staff (28/29) a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod mesurau priodol wedi'u cymryd yn hyn o beth.

Gwelsom fod polisi ysgrifenedig cyfredol ar waith mewn perthynas â'r defnydd o hybryngwyr. Roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos yn yr ystafell aros hefyd yn hysbysu cleifion y gallent ofyn am hybryngwr. Roedd matrices hyfforddiant a

ddarparwyd i ni yn dangos bod hyfforddiant ymwybyddiaeth hebryngwyr yn rhan o raglen hyfforddiant gorfodol y practis. Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r staff (tua 80%) wedi bod yn bresennol yn yr hyfforddiant hwnnw. Fodd bynnag, nid oedd pob aelod o'r staff wedi'i restru ar y matrices ac roedd rhai aelodau o'r staff a oedd heb gael eu cofnodi fel aelodau a oedd wedi cwblhau hyfforddiant.

Dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod y cleifion yn cael cynnig hebryngwyr lle y bo'n briodol.

Yn yr un modd, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn (ac a oedd yn teimlo ei fod yn berthnasol iddynt) yn holiadur cleifion AGIC (37/51) wrthym eu bod wedi cael cynnig hebryngwr (ar gyfer archwiliadau neu driniaethau personol). Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r ymatebwyr (14/57) wrthym nad oeddent wedi. O gofio'r ymateb hwn, dylai'r practis archwilio a oes angen rhagor o gamau i wneud y cleifion yn ymwybodol y gallant ofyn am hebryngwr wrth gael eu gweld.

Roedd desg y dderbynfa yn yr ystafell aros. Felly, roedd potensial i glywed sgysiau yn ddamweiniol. Gwelsom fod ystafell ar gael y gellid ei defnyddio pe bai cleifion am gael sgysiau preifat â staff y practis.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff (25/29) a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod mesurau'n cael eu cymryd i ddiogelu cyfrinachedd cleifion. Fodd bynnag, dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn (ac a oedd yn teimlo ei fod yn berthnasol iddynt) yn holiadur cleifion AGIC (100/118) wrthym nad oeddent yn gallu siarad â staff y dderbynfa heb i bobl eraill eu clywed.

Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i leihau'r tebygolrwydd y bydd gwybodaeth gyfrinachol cleifion yn cael ei chlywed yn ddamweiniol wrth siarad â staff y dderbynfa cyn belled ag y bo'n ymarferol.

Amserol

Gofal Amserol

Gwelsom fod gan y practis bolisi ysgrifenedig cyfredol ar sut y gallai cleifion gael gafael ar wasanaethau a ddarperir gan y practis. Roedd gwybodaeth i gleifion am sut y gallent gael gafael ar apwyntiadau gyda'r meddyg teulu neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol addas arall ar gael ar wefan y practis ac yn nhaflen wybodaeth y practis.

Dywedwyd wrthym y gallai cleifion wneud apwyntiad dros y ffôn, ar-lein drwy Fy lechyd Ar-lein neu mewn person yn y practis. Roedd y practis yn cynnig

apwyntiadau wyneb yn wyneb ac apwyntiadau dros y ffôn. Yn ogystal, gallai cleifion sy'n gaeth i'w cartrefi ofyn i feddyg teulu neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol addas arall ymweld â'r cartref. Dywedwyd wrthym hefyd fod y practis yn darparu gwasanaethau i gartref gofal lleol, ac roedd rowndiau o'r cartref gofal yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn (ac a oedd yn teimlo ei fod yn berthnasol iddynt neu y gallent roi barn arno) yn holiadur cleifion AGIC (135/179) wrthym eu bod yn fodlon ar oriau agor y practis. At hynny, dywedodd y mwyafrif (159/187) wrthym eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth y tu allan i oriau os oedd angen.

Fodd bynnag, dywedodd ychydig neu ychydig iawn o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiynau (ac a oedd yn teimlo eu bod yn berthnasol iddynt neu eu bod yn gallu rhoi barn arnynt) yn holiadur cleifion AGIC wrthym eu bod yn gallu cysylltu â'r practis pan oedd angen iddynt wneud hynny (60/183), y gallent gael apwyntiad ar yr un diwrnod os oedd angen iddynt weld meddyg teulu ar frys (46/180) ac y gallent gael apwyntiadau rheolaidd pan oedd angen iddynt eu cael (32/181). Pan ofynnwyd a allent gael gafael ar y gofal iechyd iawn ar yr amser iawn, teimlai'r rhan fwyaf o'r cleifion a atebodd y cwestiwn yn holiadur cleifion AGIC (109/176) na allent. Teimlai'r gweddill y gallent (56/176) neu fod yn well ganddynt beidio â dweud (11/176). O gymharu, teimlai'r rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC (20/29) y gallai cleifion gael gafael ar y gwasanaethau a gynigiwyd mewn ffordd amserol.

Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr (133/186) a atebodd y cwestiwn yn holiadur cleifion AGIC wrthym nad oeddent wedi cael cynnig dewis y math o apwyntiad yr oeddent yn ei ffafrio. Fodd bynnag, roedd ychydig dros hanner yn fodlon ar y math o apwyntiad a gynigiwyd iddynt (96/182). Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (123/187) wrthym fod eu hapwyntiad mewn person yn y practis, gyda'r gweddill yn dweud wrthym eu bod wedi cael apwyntiad dros y ffôn (62/187) neu apwyntiad o bell (2/187).

Pan ofynnwyd a oedd eu hapwyntiad ar amser, dywedodd llai na hanner yr ymatebwyr a atebodd y cwestiwn (ac a oedd yn teimlo ei fod yn berthnasol iddynt) yn holiadur cleifion AGIC (79/173) iddo fod ar amser. Dywedodd y gweddill (94/173) nad oedd eu hapwyntiad ar amser.

Dywedwyd wrthym fod gwaith sylweddol wedi'i wneud i wella'r system apwyntiadau. Roedd newidiadau wedi'u gwneud er mwyn i gleifion allu trefnu apwyntiad ar y dydd neu drefnu un ymlaen llaw. Dywedwyd wrthym hefyd fod gwelliannau wedi'u gwneud i'r system ffôn er mwyn helpu i atal cleifion rhag aros mewn ciw, gan arwain weithiau at gynnydd yng nghostau biliau ffôn cleifion. Fodd

bynag, ar adeg yr arolygiad, ni fu modd cadarnhau a gafodd y newidiadau hyn effaith gadarnhaol.

Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i werthuso effeithiolrwydd y newidiadau a wnaed i'r system apwyntiadau.

Cyflogwyd Uwch Ymarferydd Iechyd Meddwl gan y practis. Darparodd yr Uwch Ymarferydd Iechyd Meddwl amrywiaeth o wasanaethau iechyd meddwl a byddai'n adolygu cleifion y mae angen cymorth iechyd meddwl brys arnynt. Dywedwyd wrthym fod gan yr Uwch Ymarferydd Iechyd Meddwl gysylltiadau effeithiol â gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd a chymunedol a gallai gyfeirio cleifion mewn modd priodol.

Roedd Uwch Ymarferydd Nyrsio ac Uwch-parafeddyg yn cael eu cyflogi yn y practis a allai drin cleifion gydag amrywiaeth o gyflyrau, er mwyn iddynt beidio â gorfod aros i feddyg teulu eu gweld.

Gallai cleifion hefyd gael gafael ar wasanaeth ffisiotherapi heb i feddyg teulu eu hatgyfeirio. Dywedwyd wrthym fod y practis wedi defnyddio nifer sylweddol o sesiynau ffisiotherapi ychwanegol mewn ymateb i anghenion poblogaeth cleifion y practis.

Roedd y practis yn cyflogi Swyddogion Llywio Gofal a gwelsom fod polisi ysgrifenedig cyfredol ar waith i arwain y penderfyniadau a wneir. Nododd y polisi y gallai Swyddogion Llywio Gofal ofyn am gyngor clinigydd addas os nad oeddent yn siŵr pa gam gweithredu sydd orau i ddiwallu anghenion y claf. Roedd adborth y staff o ran pa mor dda y mae'r system hon yn gweithio yn gymysg. Roedd rhai aelodau o'r staff yn teimlo bod y system bresennol yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, nid oedd aelodau eraill yn teimlo eu bod yn ddigon medrus i benderfynu ar ba gleifion yr oedd angen iddynt weld meddyg teulu neu beidio. Yn enwedig pan nad oedd apwyntiadau ar gael ar y diwrnod y mae claf yn ffonio i ofyn am help ar frys. Roedd sylwadau gan rai aelodau o'r staff yn nodi y byddai meddyg ar alwad dynodedig o gymorth yn hyn o beth.

Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i sicrhau bod Swyddogion Llywio Gofal yn cael eu cefnogi'n addas yn eu rolau.

Dywedwyd wrthym fod Swyddogion Llywio Gofal wedi'u hyfforddi i'w helpu i wneud eu gwaith. Er i ni gael enghraifft o raglen sefydlu, nid oedd tystiolaeth fod staff wedi cael hyfforddiant i gyflawni rôl y Swyddog Llywio Gofal.

Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i ddangos bod staff sy'n gweithio fel Swyddogion Llywio Gofal wedi cael hyfforddiant priodol i gyflawni eu rôl.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Roedd y practis wedi cynhyrchu taflen wybodaeth i gleifion yr oedd modd ei lawrlwytho o wefan y practis. Roedd hon yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i gleifion, fel manylion cyswllt ac amseroedd agor y practis, y gwasanaethau a ddarperir, sut gallai cleifion gofrestru, opsiynau o ran apwyntiadau, sut gallai cleifion archebu presgripsiynau rheolaidd a throsolwg o dîm y practis.

Roedd amrywiaeth o wybodaeth ar gael ar wefan y practis hefyd, a oedd yn cynnig yr opsiwn i gleifion gael gwybodaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Roedd gwybodaeth hefyd yn cael ei harddangos yn yr ystafell aros. Gwelsom fod y mwyafrif o'r wybodaeth ysgrifenedig yn Saesneg yn unig.

Dyweddodd y staff wrthym eu bod yn gallu defnyddio gwasanaeth cyfieithu er mwyn helpu i gyfathrebu â chleifion nad Saesneg yw eu mamiaith. At hynny, dywedodd y staff wrthym y gallent ddefnyddio dehonglydd iaith Arwyddion Prydain. Roedd gan y practis ddolen sain weithredol i helpu staff i gyfathrebu â chleifion sy'n drwm eu clyw ac sy'n gwisgo cymhorthion clyw.

Dyweddodd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC (21/29) wrthym fod rhybuddion ar gofnodion cleifion i'w gwneud nhw'n ymwybodol o unrhyw anghenion cyfathrebu.

Hawliau a Chydraddoldeb

Roedd gan y practis bolisi ysgrifenedig cyfredol mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth.

Roedd matrices hyfforddiant a ddarparwyd i ni yn dangos bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan o raglen hyfforddiant gorfodol y bwrdd iechyd. Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r staff (tua 80%) wedi bod yn bresennol yn yr hyfforddiant hwnnw. Fodd bynnag, nid oedd pob aelod o'r staff wedi'i restru ar y matrices ac roedd rhai aelodau o'r staff a oedd heb gael eu cofnodi fel aelodau a oedd wedi cwblhau hyfforddiant.

Dyweddodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiynau (ac a oedd yn teimlo eu bod yn berthnasol iddynt) yn holiadur cleifion AGIC wrthym eu bod wedi cael digon o amser i esbonio'u hanghenion gofal iechyd (104/168), roedd y meddyg teulu wedi esbonio pethau'n dda iddynt ac wedi ateb eu cwestiynau (107/160), roeddent yn teimlo eu bod yn cael clust i wrando (97/167) a'u bod yn gymaint o ran o'r penderfyniadau ar eu gofal iechyd ag yr oeddent yn dymuno bod (94/156).

Dyweddodd y mwyafrif o'r staff (28/29) a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod y cleifion, neu eu heiriolwyr yn cael eu hysbysu am benderfyniadau am eu gofal a'u bod yn cymryd rhan mewn penderfyniadau ynghylch eu gofal.

Roedd mynediad gwastad i'r safle, a oedd yn ei wneud yn hygyrch i gleifion. Roedd lle parcio am ddim yn union y tu allan i'r safle, gan gynnwys lleoedd parcio dynodedig i gleifion ag amhariad symudedd, er mwyn eu helpu i fynd i'r safle'n ddiogel.

Roedd pob ystafell glinigol wedi'i lleoli ar y llawr gwaelod ynghyd â'r ystafell aros a dau doiled (gan gynnwys toiled hygyrch i gadeiriau olwyn) gyda chyfleusterau golchi dwylo, a oedd yn eu gwneud yn hygyrch i gleifion.

Dyweddodd y mwyafrif o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiynau (ac a oedd yn teimlo eu bod yn berthnasol iddynt neu eu bod yn gallu rhoi barn arnynt) yn holiadur cleifion AGIC wrthym fod y safle yn hygyrch (96/120), bod digon o seddau yn yr ardal aros (106/120) a bod y toiledau a'r cyfleusterau golchi dwylo'n gweddu i'w hanghenion (109/111). Pan ofynnwyd a oedd y safle'n 'gyfeillgar i blant', dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn (ac a oedd yn teimlo ei fod yn berthnasol iddynt neu eu bod yn gallu rhoi barn) yn holiadur cleifion AGIC (54/65) ei fod yn gyfeillgar.

Dyweddodd y mwyafrif o'r ymatebwyr (144/168) a atebodd y cwestiwn yn holiadur cleifion AGIC wrthym nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaethau neu ddefnyddio'r gwasanaethau yn y practis. Dywedodd y gweddill (23/168) wrthym eu bod wedi wynebu gwahaniaethu ar sail oedran, anabledd, crefydd, rhyw neu roedd gwell ganddynt beidio â dweud (9/168). Dylai'r practis archwilio pam yr oedd rhai cleifion yn teimlo iddynt wynebu gwahaniaethu wrth gael gafael ar wasanaethau a chymryd camau fel y bo'n briodol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli Risg

Gwelsom fod y safle i'w weld yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, yn fewnol ac yn allanol. Roedd pob rhan o'r practis yr oedd yn bosibl i'r cleifion fynd iddynt yn rhydd o beryglon amlwg. Gwelsom fod yr un peth yn wir am ardaloedd i staff yn unig.

Gwelsom arwyddion yn cael eu harddangos i gynghori cleifion ac ymwelwyr o ardaloedd i staff yn unig. Gwelsom hefyd fod arwyddion yn cael eu harddangos i rybuddio cleifion a staff o ystafelloedd lle roedd ocsigen yn cael ei storio.

Gwelsom fod blychau dynodedig addas yn cael eu defnyddio i storio offer miniog meddygol cyn iddynt gael eu gwaredu. Gwelwyd bod y rhain yn cael eu defnyddio'n ddiogel a'u lleoli i leihau'r risg o anafiadau.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff a atebodd y cwestiwn yn holiadur AGIC (21/27) wrthym eu bod yn fodlon, ar y cyfan, ar yr ymdrechion a wnaed gan y practis i gadw'r staff a'r cleifion yn ddiogel.

Gwelsom fod asesiad risg tân wedi'i gwblhau ac roedd yn parhau i fod yn ddilys.

Fodd bynnag, cadarnhaodd y staff uwch nad oedd asesiad risg cyffredinol wedi cael ei gwblhau. Roedd hyn yn golygu na ellid rhoi sicrwydd i AGIC bod potensial neu beryglon gwirioneddol sy'n gysylltiedig â gweithrediad y practis wedi'u nodi a chamau gweithredu wedi'u rhoi ar waith i liniaru'r risg o anaf i staff neu gleifion.

Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i gwblhau asesiad risg addas ac i roi cynllun gweithredu priodol ar waith i reoli unrhyw risgiau a nodwyd.

Gwelsom fod asesiad risg yn y broses o gael ei ddrafftio mewn perthynas â staff yn cynnal ymweliadau â chartrefi. Mae angen i'r practis sicrhau y caiff hyn ei roi ar waith ar ôl iddo gael ei gytuno arno drwy ei broses lywodraethu.

Gwelsom fod ystafell ddynodedig ar gael i gleifion a oedd yn aros am ambiwlans. Roedd cyfleusterau hefyd ar gael i'w perthnasau neu ofalwyr aros gyda nhw wrth iddynt aros am yr ambiwlans.

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Gwelsom fod gan y practis bolisi ysgrifenedig cyfredol yn ymwneud ag atal a rheoli heintiau. Fodd bynnag, nid oedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o sut i gael gafeael ar y polisi ysgrifenedig.

Roedd yr ardaloedd hynny o safle'r practis a welsom yn lân ac wedi'u dodrefnu mewn ffordd a oedd yn golygu y gellid eu glanhau'n effeithiol.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff a atebodd y cwestiynau yn holiadur AGIC wrthym fod gan y practis bolisi rheoli heintiau effeithiol ar waith yn eu sefydliad (22/26), a bod yr amgylchedd yn golygu y gellir glanhau'n effeithiol (25/26). Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff (19/26) wrthym fod amserlen lanhau effeithiol ar waith.

Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn holiadur cleifion AGIC (119/121) wrthym, bod y safle yn 'lân iawn' neu'n 'lân' yn eu barn nhw. Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiynau (ac a oedd yn teimlo eu bod yn berthnasol iddynt neu y gallent roi barn arnynt) yn holiadur cleifion AGIC wrthym fod arwyddion yn cael eu harddangos yn esbonio beth i'w wneud pe bai ganddynt symptomau haint (90/96), bod hylif diheintio dwylo ar gael (98/106) a bod staff yn golchi eu dwylo cyn eu trin (63/78).

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo addas ar gael ym mhob ystafell ymgynghori, yr ystafelloedd clinigol ac yn y toiledau. Gwelsom fod posteri wedi'u harddangos ger y sincipiau golchi dwylo yn nhoiledau'r cleifion a oedd yn rhoi cyngor i'r cleifion ar y weithdrefn gywir i'w dilyn er mwyn sicrhau hylendid dwylo effeithiol. Roedd hylif diheintio dwylo ar gael yn hwylus i'r staff a'r cleifion ei ddefnyddio.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael yn hwylus i'r staff ei ddefnyddio. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw bod PPE ar gael iddynt bob amser. Dywedodd y mwyafrif o'r staff a atebodd y cwestiwn yn holiadur AGIC wrthym hefyd fod PPE priodol yn cael ei gyflenwi a'i ddefnyddio (25/26).

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau ond nid oeddent yn gwbl ymwybodol o safonau rheoli heintiau.

Dywedodd rhai ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC (64) wrthym eu bod wedi cael triniaeth fewnwithiol yn y practis fel cymryd gwaed, pigladau neu fân lawdriniaethau. Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr neu bob un ohonynt a atebodd y cwestiynau (ac a oedd yn gallu cynnig barn) yn holiadur cleifion AGIC wrthym fod staff yn gwisgo menig yn ystod y driniaeth (44/55), bod yr offer a ddefnyddiwyd wedi'u pecynnu neu eu diheintio'n unigol (60/60) a bod weips gwrthfacterol yn cael eu defnyddio i lanhau'r croen cyn y driniaeth (44/53).

Roedd matrices hyfforddiant a ddarparwyd i ni yn dangos bod hyfforddiant atal a rheoli heintiau yn rhan o raglen hyfforddiant gorfodol y practis. Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r staff clinigol (oddeutu 68%) wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau ar lefel sy'n briodol i'w rôl (h.y. Lefel 2). Gwelsom hefyd fod y rhan fwyaf o'r staff anghlinigol (oddeutu 60%) wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau ar lefel sy'n briodol i'w rôl (h.y. Lefel 1). Fodd bynnag, nid oedd pob aelod o'r staff wedi'i restru ar y matrices ac roedd rhai aelodau o'r staff a oedd heb gael eu cofnodi fel aelodau a oedd wedi cwblhau hyfforddiant.

Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i gefnogi'r aelodau staff hynny y mae'n ofynnol iddynt wneud hynny, er mwyn cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau ar lefel briodol.

Rheoli Meddyginiaethau

Disgrifiodd uwch-aelodau o'r staff broses addas i gleifion ofyn am bresgripsiynau rheolaidd. Dywedwyd wrthym y gallai cleifion ofyn mewn person yn y practis, ar-lein drwy Fy Iechyd Ar-lein neu drwy drefniadau gyda fferyllfa benodol.

Roedd Clercod Presgripsiynau yn cael eu cyflogi gan y practis, a dywedwyd wrthym eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i'w galluogi i wneud eu swyddi'n gywir.

Roedd y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu gan y practis yn cynnwys rhoi brechlynnau i blant ac oedolion. Dywedwyd wrthym fod unigolyn penodol a oedd yn gyfrifol am gynnwys y gadwyn oer ar gyfer pob brechlyn cymwys.

Dywedwyd wrthym fod trefniadau priodol ar waith i storio brechlynnau, a oedd yn unol â'r canllawiau y cytunwyd arnynt.

Dywedwyd wrthym nad oedd y practis yn storio Cyffuriau a Reolir ar y safle.

Diogelu Plant ac Oedolion

Gwelsom fod gan y practis bolisiâu ysgrifenedig a gweithdrefnau cysylltiedig cyfredol yn ymwneud â diogelu plant ac oedolion mewn perygl. Roedd y dgogfennau'n nodi'n glir pwy yw'r arweinwyr diogelu ac roedd manylion cyswllt ar gyfer y timau diogelu lleol ar gael.

Disgrifiwyd trefniadau addas i nodi plant ar y gofrestr amddiffyn plant.

Pan ofynnwyd a oeddent yn gwybod pwy oedd yr arweinydd diogelu ar gyfer y practis, dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a atebodd y cwestiwn yn holiadur AGIC (16/26) wrthym eu bod yn gwybod. Yn ogystal, dywedodd y mwyafrif o'r staff (24/27) wrthym eu bod yn gwybod sut i hysbysu ynghylch pryderon diogelu.

Dangosodd matrices hyfforddiant a ddarparwyd i ni fod hyfforddiant diogelu yn rhan o raglen hyfforddiant gorfodol y practis i'r staff. Gwelsom fod yr unigolion hynny a ddynodwyd fel arweinwyr diogelu wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ar lefel briodol (h.y. Lefel 3). Gwelsom hefyd fod y rhan fwyaf o'r staff (oddeutu 67%) wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ar lefel sy'n briodol i'w rôl (h.y. Lefel 1, Lefel 2 neu Lefel 3). Fodd bynnag, nid oedd pob aelod o'r staff wedi'i restru ar y matrices ac roedd rhai aelodau o'r staff a oedd heb gael eu cofnodi fel aelodau a oedd wedi cwblhau hyfforddiant.

Dyweddodd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod eu hyfforddiant diogelu yn gyfredol (19/27).

Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i gefnogi'r aelodau staff hynny y mae'n ofynnol iddynt wneud hynny, er mwyn cwblhau hyfforddiant diogelu ar lefel briodol.

Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol

Gwelsom fod amrywiaeth o gyfarpar ar gael yn y practis a oedd mewn cyflwr da ac yn lân i bob golwg. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael gafael ar gyfarpar addas i'w galluogi i wneud eu gwaith.

Dywedwyd wrthym fod cyfarpar a meddyginiaethau addas i'w defnyddio mewn argyfwng ar gael yn rhwydd yn y practis. Gwelsom fod troli brys dynodedig ar gael i storio eitemau brys a dywedwyd wrthym fod hwn wedi'i gyflwyno yn ddiweddar fel mesur gwella. Roedd arwyddion yn cael eu harddangos yn glir ar safle'r practis i hysbysu'r staff ynghylch lleoliad y troli. Fodd bynnag, dylai'r practis ystyried p'un a ddylai ddefnyddio'r arwydd safonol ar gyfer Diffibrilwyr Allanol Awtomataidd os yn briodol ac fel y cafodd ei argymhell gan y Cyngor Dadebru (y DU).

Gwnaethom astudio'r cofnodion a oedd yn cael eu cynnal yn y practis mewn perthynas â gwiriadau o'r cyfarpar a chyffuriau brys. Gwelsom dystiolaeth o wiriadau cofnodedig o gyffuriau brys yn cael eu cynnal yn fisol yn ystod 2022 yn gyffredinol ac yna ym mis Chwefror, mis Mawrth, mis Ebrill a mis Mehefin 2023. Fodd bynnag, nid oedd y cofnod yn cynnwys manylion y cyffuriau a wiriwyd. Ni chynhaliwyd gwiriadau cofnodedig o gyfarpar brys yn ystod y cyfnod hwn.

Roedd rhestrau gwirio cynhwysfawr a oedd yn cynnwys manylion y cyffuriau a'r cyfarpar brys i'w gwirio, ynghyd â pholisi/proses ysgrifenedig newydd ar gyfer cynnal gwiriadau ar gael ar ddiwrnod ein harolygiad. Roedd cyfarwyddiadau clir yn y rhestrau gwirio o ran pryd roedd angen i staff wirio cyffuriau a chyfarpar brys. Roedd amllder cynnal gwiriadau yn unol â'r safonau a osodwyd gan y Cyngor Dadebru (y DU). Dyddiad y gwiriad cofnodedig diweddaraf o'r cyffuriau brys oedd 10/11 Gorffennaf 2023.

Roedd y rhestr wirio ar gyfer y cyffuriau brys yn nodi nad oedd rhai ohonynt ar gael. Nid oedd unrhyw gofnod i ddangos pa gamau a gymerwyd i gael yr eitemau uchod. Dywedwyd wrthym mai'r rheswm nad oedd rhai eitemau ar gael oedd oherwydd problem gyflenwi gan y gwneuthurwr. Dywedwyd wrthym hefyd fod rhai eitemau eraill ar gael ond nad oeddent yn cael eu storio ar y troli brys dynodedig. Nid oedd yr aelod o'r staff a oedd yn cynnal y gwiriad yn ymwybodol o leoliad yr eitemau hyn i gadarnhau eu bod ar gael.

Er bod rhestr wirio wedi nodi bod gwiriad o'r cyfarpar brys wedi'i gynnal/yn ddisgwyliedig ar 10 Gorffennaf 2023, nid oedd y rhestr wirio wedi'i chymeradwyo gan y staff i ddangos bod hyn wedi'i wneud. Yn ogystal, nid oedd hi'n glir a ddylai rhywfaint o gyfarpar fod wedi'i storio ar y troli. Rhoddodd yr uwch-aelodau o'r staff sicrwydd i ni fod y rhain ar gael yn rhwydd adeg ein harolygiad.

Roedd ein canfyddiadau'n golygu na chafodd AGIC sicrwydd fod y staff yn ymwybodol o ble i ddod o hyd i'r eitemau hynny a oedd heb gael eu storio ar y troli brys. Ni chawsom sicrwydd ychwaith fod y staff yn ymwybodol o'r broses gywir o wirio'r cyfarpar brys. Gall y ddau arwain at oedi wrth ymateb i argyfwng yn y practis.

Ymdriniwyd â'r mater uchod o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir ato yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.

Dangosodd matrices hyfforddiant a ddarparwyd i ni fod hyfforddiant anaffylaccis a dadebru yn rhan o raglen hyfforddiant gorfodol y practis. O'r wybodaeth a ddarparwyd, gwelsom fod yr holl staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant anaffylaccis, hyfforddiant dadebru oedolion a phediatrig. Fodd bynnag, nid oedd pob aelod o'r staff wedi'i restru ar y matrices.

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd practis clinigol yn cael eu cynnal a rhoddwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ym mis Ionawr a mis Mai 2023 i ni. Roedd y rhain yn dangos bod digwyddiadau arwyddocaol wedi'u trafod a lle y bo'n berthnasol, roedd canllawiau wedi'u dosbarthu i'r tîm clinigol. Fodd bynnag, nid oedd y cofnodion yn dangos a oedd canllawiau arfer gorau, cenedlaethol a phroffesiynol yn cael eu rhannu a'u trafod yn rheolaidd yn y cyfarfodydd hyn.

Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i ddangos bod canllawiau arfer gorau, cenedlaethol a phroffesiynol perthnasol yn cael eu trafod a'u rhannu'n rheolaidd â'r tîm clinigol.

Dywedwyd wrthym fod atgyfeiriadau brys at ofal eilaidd i gleifion yr amheuir bod ganddynt ganser yn cael eu rheoli'n effeithiol gyda phob atgyfeiriad yn cael ei wneud gan feddyg teulu drwy ddefnyddio system electronig Porth Cyfathrebu Clinigol Cymru.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC (18/29) wrthym fod ganddynt ddeunyddiau, cyflenwadau a chyfarpar digonol, a bod ganddynt fynediad i systemau TG addas (23/29).

Cofnodion y Cleifion

Gwnaethom edrych ar gofnodion gofal deg claf. Gwelsom fod system rheoli cofnodion effeithiol ar waith a gwelsom fod cofnodion y cleifion yn ddiogel rhag mynediad heb awdurdod.

Roedd y cofnodion yr edrychwyd arnynt yn glir, yn ddarllenadwy ac o ansawdd da. O'r cofnodion, roedd hi'n amlwg pwy oedd yn gwneud y nodiadau ar bob cysylltiad, y dyddiad y gwnaed pob cysylltiad a'r math o gysylltiad, fel ymgynghoriad yn y feddygfa, ymgynghoriad dros y ffôn, neu alwad yn y tŷ a phwy oedd yn gwneud y cofnod. Gwelsom fod y cofnodion wedi'u cwblhau ar yr un pryd. Gwnaethant hefyd ddangos tystiolaeth o gael cydsyniad dilys, lle y bo'n briodol.

Roedd gan y cofnodion nodiadau o'r gofal neu'r driniaeth a ddarparwyd a'r canfyddiadau perthnasol. Lle roedd meddyginiaeth wedi'i rhagnodi, gwelsom fod y rhain yn gysylltiedig â chyflwr meddygol y claf. Roedd alergeddau ac adweithiau andwyol hysbys y cleifion i feddyginiaethau wedi'u cofnodi. Lle roedd ymchwiliadau wedi'u trefnu, gwnaed nodyn o'r rhain.

Er bod y cofnodion yn dangos bod hebryngwr yn bresennol, nid oedd y rhain yn dangos a oedd y cleifion wedi cael cynnig hebryngwr bob amser ac a oedd y cynnig wedi'i dderbyn neu ei wrthod gan y claf.

Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i gofnodi'n gyson yng nghofnod y claf a oedd hebryngwr wedi'i gynnig i'r claf ac a oedd y cynnig wedi'i dderbyn neu ei wrthod.

Gwelsom fod y practis yn defnyddio set o godau Read a oedd yn darparu system safonol i gofnodi cyflyrau cyffredin ymhlith cleifion.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan Staff

Cafwyd ymatebion cymysg gan y staff a gwblhaodd holiadur AGIC.

Byddai ychydig dros hanner yr ymatebwyr (15/27) yn argymhell y practis fel lle i weithio ac roedd y mwyafrif o'r staff a wnaeth ymateb (27/29) yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir i gleifion. Fodd bynnag, roedd y sylwadau a ddaeth i law yn nodi bod angen cymryd camau i wella'r gydberthynas weithio rhwng y rheolwyr a rhai o aelodau'r staff.

Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i ymateb i'r sylwadau llai ffafriol gan y staff a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad hwn.

Ymhlith rhai o'r sylwadau a gawsom oedd y canlynol:

“Gofal gwych i gleientiaid sydd bwysicaf i'r practis. Mae gennym staff ardderchog sy'n cynnwys swyddog gweinyddol a'r tîm Llywio Gofal. Mae angen gwella'r gwasanaeth drwy gyflogi mwy o staff gan fod adrannau yn y practis sy'n cael trafferthion go iawn, fel tîm ac fel unigolion. Mae hyn yn cael effaith andwyol ar lesiant y staff.”

“Mae llesiant y staff yn isel ac mae wedi bod yn isel ers pedair blynedd o leiaf. Yn aml, mae proses gwneud penderfyniadau'r rheolwyr a'r meddygon teulu partner a'u proses o wneud gwelliannau neu newidiadau wedi bod yn araf yn y gorffennol, neu'n effeithio ar staff a chlaf ar y funud olaf. Ni chaiff y pwysau ar lwyth gwaith y staff eu cydnabod na'u rheoli bob amser. Bu'r cyfathrebu rhwng rheolwyr a staff a rhwng y practis a chleifion yn wael iawn yn y gorffennol.”

“Mae'n annifyr peidio â gwybod ydych chi'n gwneud y peth iawn o un diwrnod i'r llall. Nid yw'n hawdd siarad â'r rheolwyr.”

“Mae gorfod gwneud hyfforddiant gorfodol ar-lein yn eich amser eich hun yn anodd iawn pan fo gennych fywyd cartref prysur. Ni chaiff amser ei glustnodi yn ystod amser gwaith.”

“Ar ôl bod trwy gyfnod cythryblus sydd wedi bod yn anodd ar bawb, mae yna deimlad o obaith a newid cadarnhaol ar y cyfan.”

“Mae pawb sy'n gweithio yma yn dymuno darparu'r gofal gorau posibl i'n cleifion.”

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Caiff y practis ei weithredu dan gytundeb partneriaeth rhwng tri meddyg teulu partner. Cefnogwyd y partneriaid gan dîm rheoli sy'n cynnwys Rheolwr Practis Busnes, Rheolwr Practis Clinigol a Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol.

Roedd y Rheolwr Arferion Busnes a'r Rheolwr Practis Clinigol yn bresennol ar ddiwrnod ein harolygiad ac roeddent glir o ran eu rôl a'u cyfrifoldebau yn y practis.

Ar adeg ein harolygiad, disgrifiodd y meddygon teulu partner a'r rheolwyr fod y practis mewn cyfnod o drawsnewid. Gwnaethant ddisgrifio'r heriau yr oeddent yn eu hwynebu a'r camau a oedd yn cael eu cymryd i wneud gwelliannau lle roedd angen.

Dywedodd rhyw hanner o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn gallu gwneud awgrymiadau i wella gwasanaethau. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r staff (18/29) yn teimlo nad oeddent yn helpu i wneud penderfyniadau ar newidiadau a gyflwynwyd sy'n effeithio ar eu gwaith.

Gwelsom fod polisiau cynhwysfawr ysgrifenedig a gweithdrefnau cysylltiedig ar gael i helpu'r staff i ymgymryd â'u gwaith. Roedd y sampl o'r rhai a welsom wedi'u rhoi ar waith yn ystod mis Mai neu fis Mehefin 2023. Roedd rhai o'r rhain yn cyfeirio at y Safonau Iechyd a Gofal, a oedd newydd eu disodli â'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal. Felly, dylid gwneud trefniadau i ddiweddarau'r polisiau hynny er mwyn adlewyrchu'r fframwaith safonau cyfredol.

Gwelsom fod system addas ar waith i gofnodi pryd yr oedd staff wedi darllen y polisiau. Fodd bynnag, ar adeg ein harolygiad, dangosodd y system fod dros 50% o'r staff heb ddarllen rhai o bolisiau/canllawiau'r practis, fel y rhai yn ymwneud â defnyddio hebryngwyr, cydsyniad, diogelu, chwythu'r chwiban, atal a rheoli heintiau a Dyletswydd Gonestrwydd.

Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i ddangos bod y staff yn ymwybodol o gynnwys polisiau a gweithdrefnau ysgrifenedig y practis.

Dywedodd y rheolwyr wrthym fod cyfarfodydd rheoli clinigol wedi'u cynnal a gwelsom gofnodion o'r rhain ar gyfer cyfarfodydd a gynhaliwyd ym mis Ionawr a mis Mai 2023. Dywedwyd wrthym hefyd fod un o'r meddygon teulu partner wedi ymweld â'r staff a oedd yn gweithio yn y practisau a weithredir gan y bartneriaeth meddygon teulu, yn gynharach yn y flwyddyn. Pwrpas hyn oedd rhannu adborth yn dilyn ymarfer ymgysylltu gyda chleifion y practis a gynhaliwyd gan y Cyngor Iechyd

Cymuned lleol (Llais erbyn hyn) a hefyd i ddarparu diweddariad ar y system wybodaeth electronig i gleifion a ddefnyddir gan y practisau yn y grŵp.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff a atebodd y cwestiynau yn holiadur AGIC wrthym mai gofal cleifion yw prif flaenoriaeth y practis (25/27) a byddent yn hapus â safon y gofal a ddarperir gan y practis ar eu cyfer nhw neu ar gyfer eu ffrindiau/teulu (22/27).

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Yn ogystal â'r meddygon teulu partner a'r tîm rheoli, roedd tîm y practis yn cynnwys meddyg teulu cyflogedig, Fferylllydd, Clercod Presgripsiynau, Uwchymarferydd Nyrsio, Uwch-parafeddyg, Uwch-ymarferydd Iechyd Meddwl, Ffisiotherapydd, Nyrsys y Practis, Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd, Swyddogion Llywio Gofal a staff gweinyddol. Roedd tîm y practis hefyd yn gweithio'n agos gyda thimau gofal iechyd yn y gymuned, fel y tîm nyrsio cymunedol lleol a fferyllwyr.

Practis hyfforddi yw hyn ac roedd yn darparu lleoliadau i dri meddyg teulu a fferyllwyr dan hyfforddiant.

Er bod y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC (21/29) wedi dweud wrthym fod cymysgedd sgiliau priodol yn y practis, dywedodd y rhan fwyaf (19/29) wrthym nad oedd digon o staff i'w galluogi i wneud eu gwaith yn gywir. Roedd yr ymatebion yn fwy cymysg pan ofynnwyd iddynt a allent fodloni'r holl ofynion croes ar eu hamser yn y gwaith, gyda rhyw hanner o'r staff yn dweud wrthym y gallent a'r gweddill yn dweud wrthym na allent.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff a atebodd y cwestiwn yn holiadur AGIC (21/27) wrthym fod eu patrwm gwaith cyfredol yn caniatáu ar gyfer cydbwysedd da rhwng gwaith a bywyd. Roedd yr ymatebion yn gymysg pan ofynnwyd a oedd y practis yn cymryd camau cadarnhaol ar iechyd a llesiant, gyda 50% o'r staff yn dweud wrthym ei fod a'r gweddill yn dweud wrthym nad ydyw. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff (16/27) a atebodd y cwestiwn wrthym nad oedd eu swydd yn niweidiol i'w hiechyd ar y cyfan. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff (17/27) wrthym eu bod yn ymwybodol o'r cymorth iechyd a llesiant galwedigaethol sydd ar gael.

Gwnaethom edrych ar ffeiliau chwe aelod o staff sy'n gweithio yn y practis ar hyn o bryd. Gwelsom fod y practis wedi gofyn am wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac roedd tystysgrifau wedi dod ar gyfer dau aelod o'r staff. Fodd bynnag, ni ofynnwyd am wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y pedwar aelod arall o'r staff. Yn ogystal, nid oedd tystiolaeth fod geirdaon wedi dod i law ar gyfer pedwar aelod o'r staff.

Dywedwyd wrthym na ofynnwyd am wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd fel mater o drefn ar gyfer staff. Dywedwyd wrthym hefyd fod camau'n cael eu cymryd i ofyn am wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar lefel briodol ar gyfer yr holl staff sy'n gweithio yn y practis a gwelsom dystiolaeth o hyn. Fodd bynnag, roedd ein canfyddiadau'n golygu na allem gael sicrwydd fod aelodau o staff wedi'u recriwtio'n ddiogel.

Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i sicrhau y caiff aelodau newydd o staff eu recriwtio'n ddiogel ac i ddangos bod y staff presennol yn addas i weithio yn y practis.

Roedd y practis yn defnyddio matrices hyfforddiant er mwyn cadw cofnod a monitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant staff. Gwelsom fod disgwyl i'r staff fynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rôl. Gwelsom lefel dda o gydymffurfio ar gyfer hyfforddiant gorfodol ar y cyfan. Fodd bynnag, nid oedd pob aelod o'r staff wedi'i restru ar y matrices. Yn ogystal, roedd disgwyl i'r rhan fwyaf o'r staff fynychu hyfforddiant diweddarau ar y rhan fwyaf o'r pynciau ymhen un mis neu lai.

Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i sicrhau y caiff pob aelod o'r staff ei gofnodi ar y matrices hyfforddiant.

Mae'n ofynnol i'r practis roi diweddariad i AGIC ar gydymffurfiaeth y staff ar gyfer hyfforddiant gorfodol, ynghyd â manylion ynglŷn â'r ffordd y bydd cydymffurfiaeth â hyfforddiant yn cael ei chynnal.

Roedd yr ymatebion gan staff a gwblhaodd holiadur AGIC yn gymysg o ran a oeddent yn teimlo eu bod wedi cael yr hyfforddiant priodol i gyflawni eu swyddi. Teimlai llai na hanner (12/29) eu bod wedi cael hyfforddiant priodol, gyda'r gweddill yn dweud wrthym eu bod wedi cael hyfforddiant priodol 'yn rhannol' (10/29) neu'n teimlo nad oeddent wedi cael hyfforddiant priodol (7/29).

Pan ofynnwyd a oeddent wedi cael arfarniad, adolygiad blynyddol neu adolygiad datblygu o'u gwaith, dywedodd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC (22/29) wrthym nad oeddent. Dywedodd y gweddill naill ai eu bod wedi cael arfarniad (6/29) neu nad oeddent yn gallu cofio (1/29).

Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff hefyd fod arfarniadau staff wedi'u cynnal a'u bod wedi nodi bod angen gwelliannau yn hyn o beth.

Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i sicrhau bod yr holl staff yn cael arfarniad blynyddol o'u gwaith ac i gytuno ar gynlluniau datblygiad proffesiynol unigol fel y bo'n briodol.

Dyweddodd y mwyafrif o'r staff (20/25) a atebodd y cwestiwn yn yr holiadur wrthym nad oeddent wedi wynebu gwahaniaethu yn y gwaith. Fodd bynnag, dywedodd rhai wrthym ei bod yn well ganddynt beidio â dweud.

Er i'r rhan fwyaf o'r staff (17/25) ddweud wrthym fod y practis yn cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, dywedodd rhai wrthym nad oedd (7/25) neu roedd yn well ganddynt beidio â dweud (1/25). O gofio'r ymateb hwn, dylai'r practis ystyried archwilio a oedd angen rhagor o gamau gweithredu i ddangos i'r staff sut mae'r practis yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Dywedwyd wrthym fod gan y practis Grŵp Cyfranogiad Cleifion gweithgar ac roedd rheolwyr y practis wedi cyfarfod â'r grŵp yn ddiweddar i drafod sut y gallent ymgysylltu orau â chleifion. Dywedwyd wrthym fod y Grŵp yn awyddus i gefnogi'r practis yn hyn o beth.

Ar wahân i'r arolwg mynediad blynyddol, dywedwyd wrthym nad oedd gan y practis system sefydledig i ofyn am adborth gan gleifion yn rheolaidd. Fodd bynnag, roedd y Cyngor Iechyd Cymuned Lleol (Llais erbyn hyn) wedi cynhyrchu adroddiad ym mis Chwefror 2023 yn dilyn ymarfer ymgysylltu gyda chleifion y practis. Canolbwyntiodd y gweithgaredd hwn ar eu profiadau o gael gfael ar wasanaethau yn y practis. Dywedwyd wrthym fod y practis wedi cymryd camau i wneud gwelliannau mewn ymateb i'r canfyddiadau a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad. Roedd ymateb y practis a manylion y camau a gymerwyd ar gael ar wefan y practis.

Dyweddodd y mwyafrif o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC (164/182) wrthym nad oedd y practis wedi gofyn iddynt roi adborth. Dywedodd y gweddill naill ai ei fod wedi gofyn (7/182) neu nad oeddent yn gallu cofio (11/182).

Gwelsom fod gweithdrefn gwyno ysgrifenedig gyfredol ar waith er mwyn rheoli cwynion am y gofal neu'r driniaeth a ddarperir yn y practis. Roedd hyn yn cyd-fynd â Gweithio i Wella. Roedd y weithdrefn yn cynnwys manylion yr unigolyn cyswllt yn y practis a'r amserlen ddisgwyliedig ar gyfer ymateb i gwynion.

Roedd gwybodaeth am weithdrefn gwyno'r practis i'w gweld yn yr ystafell aros. Gwelsom hefyd fod taflenni Gweithio i Wella ar gael ar ddesg y dderbynfa. Yn ogystal, roedd y weithdrefn gwyno ar gael ar wefan y practis.

Roedd manylion sefydliadau eraill y gallai'r cleifion fynd atynt i gael help a chymorth wedi'u cynnwys fel rhan o'r wybodaeth a oedd wedi'i harddangos yn y practis ac ar wefan y practis.

Fodd bynnag, pan ofynnwyd a oeddent yn gwybod sut i gwyno, dywedodd dan hanner yr ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn holiadur cleifion AGIC (76/181) wrthym eu bod nhw a dywedodd y gweddill (105/181) nad oeddent yn gwybod.

Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC ynglyn â'r camau a gymerwyd i wneud cleifion yn ymwybodol o weithdrefn gwyno'r practis.

Gwelsom fod system ar waith ar gyfer cofnodi cwynion a wneir i'r practis. Gwnaethom edrych ar gofnodion o'r cwynion a ddaeth i law'r practis yn ystod y chwe mis blaenorol. Gwelsom fod y practis wedi ymateb i gwynion o fewn yr amserlenni a osodwyd yng ngweithdrefn ysgrifenedig y practis ar y cyfan. Lle na fu hyn yn bosibl, gwelsom dystiolaeth fod cleifion wedi'u hysbysu am yr oedi.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff a atebodd y cwestiwn yn holiadur AGIC wrthym y cânt eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau. Yn ogystal, dywedodd y rhan fwyaf o'r staff wrthym fod y practis yn trin y rhai sydd ynghlwm yn deg (19/27) ac wedi cymryd camau i ddysgu o gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd a digwyddiadau i sicrhau nad ydynt yn digwydd eto (20/27). Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff wrthym hefyd eu bod yn cael adborth am newidiadau a wnaed mewn ymateb i gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd a digwyddiadau (17/27).

Gwelsom fod gan y practis bolisi cyfredol ar y Ddyletswydd Gonestrwydd. Roedd hyn yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Dangosodd y Rheolwr Practis Clinigol ymwybyddiaeth dda o'u cyfrifoldebau dan y Ddyletswydd.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff a atebodd y cwestiynau yn holiadur AGIC wrthym eu bod yn gwybod ac yn deall y Ddyletswydd Gonestrwydd (21/27), eu bod yn deall eu rôl o ran cyrraedd safonau'r Ddyletswydd (21/27) a'u bod yn cael eu hannog i fynegi pryderon a rhannu'r rhain â'r cleifion(23/27).

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Gwelsom fod y practis yn casglu data gweithgarwch a bod hyn wedi'i gyhoeddi ar wefan y practis ar fformat yr oedd modd ei ddeall yn hawdd.

Dywedwyd wrthym fod gan y practis swyddog diogelu data a bod y staff yn ymwybodol o bwy oedd yr unigolyn hwn a beth oedd ei rôl.

Roedd taflen wybodaeth y practis ar gael i'w lawrlwytho o wefan y practis. Roedd hyn yn cyfeirio at staff y practis yn meddu ar ddyletswydd i ddiogelu gwybodaeth cleifion rhag datgeliad anawdurdodedig. Er y gallai cleifion ofyn am gopi o'r hysbysiad preifatrwydd, ni chafodd hyn ei hysbysebu ar safle'r practis ac nid oedd yr hysbysiad preifatrwydd ar gael ar wefan y practis. Roedd hyn yn golygu efallai nad oedd cleifion yn ymwybodol o'r ffordd y mae'r practis yn defnyddio eu data personol.

Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC ynglŷn â sut y gwneir yr hysbysiad preifatrwydd ar gael yn rhwydd ac yn hawdd i gleifion gael gafael arno. Dylid ystyried canllawiau¹ a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Dywedwyd wrthym fod y practis yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd. Fodd bynnag, ychydig iawn o dystiolaeth oedd i ddangos effeithiolrwydd y gwelliannau a roddwyd ar waith gan y practis a sut mae adborth wedi'i rannu â thîm ehangach y practis.

Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i ddangos effeithiolrwydd y gwelliannau a roddwyd ar waith gan y practis (o ganlyniad i'r gweithgareddau gwella ansawdd) a sut mae adborth wedi'i rannu â thîm ehangach y practis.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn Partneriaeth a Datblygu

Roedd y practis yn un o'r meddygfeydd yng Nghlwtwr Gofal Sylfaenol y Rhondda, sydd wedi'i lleoli yn ardal y bwrdd iechyd lleol. Nododd trafodaethau â'r tîm rheoli fod y practis wedi gweithio ar y cyd â darparwyr iechyd a gofal eraill yn y Clwtwr.

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi bod yn gweithio'n agos gyda Llais, ers yr ymarfer gweithgareddau ymgysylltu a chyhoeddi ei adroddiad ym mis Chwefror 2022.

Dywedwyd wrthym hefyd fod gan y practis gydberthynas weithio agos gyda darparwyr lleol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol, gan gynnwys Prosiect Llesiant Coetir wedi'i deilwra, sef cynllun a oedd yn benodol i gleifion y practis.

¹ <https://ico.org.uk/for-organisations/sme-web-hub/frequently-asked-questions/transparency-cookies-and-privacy-notices/#where>

Disgrifiwyd trefniadau addas i dderbyn a chofnodi gwybodaeth, fel crynodebau rhyddhau o ofal eilaidd, a chyfeirio'r rhain at aelod priodol o'r practis i weithredu arnynt fel y bo'n briodol.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni chafodd unrhyw bryderon uniongyrchol eu nodi na'u huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad.	-	-	-

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Canolfan Feddygol Forest View

Dyddiad yr arolygiad: 12 Gorffennaf 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae ein canfyddiadau'n golygu na chafodd AGIC sicrwydd fod y staff yn ymwybodol o ble i ddod o hyd i'r eitemau a oedd heb gael eu storio ar y troli brys. Ni chawsom sicrwydd ychwaith fod y staff yn ymwybodol o'r broses gywir o wirio'r cyfarpar brys. Gall y ddau arwain at oedi wrth ymateb i argyfwng yn y practis.	Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none">Dangos bod yr aelodau o'r staff wedi'u gwneud yn ymwybodol o'r broses gywir ar gyfer cynnal gwiriadau rheolaidd o'r cyfarpar i'w defnyddio mewn achos o argyfwng (claf yn llewygu)	Mae'r practis wedi buddsoddi mewn Troli Brys wedi'i deilwra er mwyn galluogi mynediad hawdd i'r holl gyfarpar, cyffuriau a chyflenwadau brys. Mae'r troli'n cynnwys mecanwaith diogel rhag difrod sy'n dangos yn gyflym a oes rhywun wedi cael gafael ar gynnwys y troli. Mae gweithdrefnau clir, gan gynnwys rhestr wirio, wedi'u dogfennu a'u cyflwyno ac mae'r holl staff perthnasol wedi cwblhau hyfforddiant wyneb yn wyneb i sicrhau	Rachel Davies	21 Gorffennaf 2023 - Cam Gweithredu Wedi'i Gwblhau*

	<ul style="list-style-type: none"> Dangos bod yr aelodau o'r staff o leoliad yr holl gyfarpar a chyffuriau i'w defnyddio mewn achos o argyfwng (claf yn llewygu) 	<p>dealltwriaeth glir o drefn y troli, ei gynnwys, rhestr wirio ac ati.</p> <p>Fel uchod. Mae gan y troli leoliad dynodedig ac mae arwyddion wedi'u postio drwy'r feddygfa ac ar y drws i'r ystafell lle mae wedi'i leoli. Mae'r staff wedi cwblhau hyfforddiant wyneb yn wyneb i ymgylfarwyddo â holl gynnwys y Troli Brys a sut i archebu/disodli eitemau sydd wedi dirwyn i ben neu eu defnyddio yn dilyn digwyddiad.</p>	Rachel Davies	21 Gorffennaf 2023 - Cam Gweithredu Wedi'i gwblhau*
	<ul style="list-style-type: none"> Monitro cydymffurfiaeth y staff â'r broses ysgrifenedig ar gyfer cynnal gwiriadau o'r cyffuriau a chyfarpar brys. 	<p>Mae'n ofynnol i fanylion llawn gael eu rhannu yn y Cyfarfod Nyrsys (19 Gorffennaf 2023) a mae angen i'r holl staff perthnasol lofnodi eu bod wedi cwblhau hyfforddiant a bydd cofrestr o hyn yn cael ei chadw. Mae'r staff wedi ymrwymo i gwblhau'r hyfforddiant ar-lein (llyfrgell</p>	Rachel Davies	Parhaus Anfonwyd Cofnodion Cyfarfod y Nyrsys a gynhaliwyd ar 19

		<p>polisiau a gweithdrefnau FVMC sy'n cael ei chynnal drwy Hyb hyfforddiant Mynegai'r Practis) erbyn 26 Gorffennaf 2023. Caiff Gweithdrefnau Brys eu cynnwys yn y rhaglen Sefydlu Staff ar gyfer yr holl staff perthnasol.</p> <p>Bydd cofnodion hyfforddiant yn cael eu hadolygu'n flynyddol a/neu fel rhan o'r broses arfarnu/ail-ddilysu fel y bo'n briodol.</p> <p>Caiff y dogfennau cefnogol canlynol eu cynnwys fel rhan o'r cyflwyniad hwn:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Cofnodlyfr Gwirio'r Stoc Cyffuriau Brys - diwygiwyd yn dilyn adborth o'r Cyfarfod Nyrsys i fod yn fwy cyfeillgar i ddefnyddwyr. 2. Siart Lif - Proses Gwirio Stoc y Troli Cyffuriau Brys 		<p>Gorffennaf fel tystiolaeth.</p>
--	--	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--	------------------------------------

		<ul style="list-style-type: none"> 3. Siart Lif - Proses Gwirio stoc cyfarpar dadebru brys y troli 4. Gweithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer Archwilio'r Stoc Cyffuriau Brys a Gwiriadau'r Cyfarpar Dadebru 5. Cofnodion Cyfarfod y Nyrsys - 19/07/2023 		
--	--	------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Mark Gall

Teitl swydd: Rheolwr Busnes

Dyddiad: 19 Gorffennaf 2023

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Canolfan Feddygol Forest View

Dyddiad yr arolygiad: 12 Gorffennaf 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae ein canfyddiadau'n dangos efallai na fydd cleifion gyda chyfrifoldebau gofalwr yn cael eu cyfeirio at yr help a'r cymorth sydd ar gael iddynt fel mater o drefn.	Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i nodi'r cleifion hynny gyda chyfrifoldebau gofalwr ac i roi gwybodaeth a chynghor iddynt fel y bo'n briodol.	Bydd y practis yn dynodi Hyrwyddwr Gofal ac yn defnyddio hyfforddiant Hyrwyddwr Gofal priodol. Bydd gwybodaeth i ofalwyr a gwybodaeth am gymorth yn cael eu rhannu yn y practis ac ar wefan y practis. Bydd ymgyrch yn cael ei lansio ar y cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo Gwasanaethau i Ofalwyr. Bydd gofalwyr yn cael eu hannog i ddweud wrthym eu bod yn ofalwyr a bydd Codau Read priodol yn cael eu cofnodi ar nodiadau'r cleifion.	Rheolwr Busnes y Practis	Tachwedd 2023

<p>Mae ein canfyddiadau'n dangos efallai nad yw'r staff yn ymwybodol o drefniadau sydd ar waith yn y practis i gefnogi gofalwyr.</p>	<p>Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i godi ymwybyddiaeth y staff o drefniadau'r practis sydd ar waith i gefnogi gofalwyr.</p>	<p>Bydd sesiwn hyfforddiant i staff, sy'n ymroi i rôl y Gofalwr, yn cael ei threfnu gan ddefnyddio sesiynau dysgu gwarchoddedig Bwrdd Iechyd y Brifysgol ar ôl iddynt gael eu cytuno arnynt a'u hamserlennu.</p>	<p>Rheolwr Busnes y Practis</p>	<p>Mawrth 2024</p>
<p>Mae ein canfyddiadau'n dangos y gall pobl glywed gwybodaeth gyfrinachol cleifion yn ddamweiniol pan fyddant yn siarad â staff y dderbynfa.</p>	<p>Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i leihau'r tebygolrwydd y bydd gwybodaeth gyfrinachol cleifion yn cael ei chlywed yn ddamweiniol wrth siarad â staff y dderbynfa cyn belled ag y bo'n ymarferol.</p>	<p>Mae ystafell breifat ar gael ac yn cael ei defnyddio i drafod materion hirfaith a/neu sensitif i ffwrdd o'r Ystafell Aros. Caiff cleifion eu hannog i "gadw y tu ôl i'r llinell" pan fyddant yn ciwio wrth Ddesg y Dderbynfa. Bydd arwyddion clir yn cael eu harddangos sy'n hyrwyddo cydymffurfiaeth o ran parchu gofod cleifion, cyfrinachedd a chadw pellter cymdeithasol.</p>	<p>Rheolwr Busnes y Practis</p>	<p>Hydref 2023</p>
<p>Mae angen i'r practis allu dangos a yw'r newidiadau a wnaed i'r system apwyntiadau yn cael effaith gadarnhaol.</p>	<p>Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i werthuso effeithiolrwydd y</p>	<p>Mae adborth gan Gynghorwyr lleol ac Aelodau o'r Senedd/Aelodau Seneddol yn awgrymu'n glir bod materion</p>	<p>Rheolwr Busnes y Practis</p>	<p>31 Mawrth 2024</p>

newidiadau a wnaed i'r system apwyntiadau.

hanesyddol yn ymwneud â mynediad wedi'u dileu. Mae'r System Apwyntiadau ddiwygiedig, a gyflwynwyd ym mis Mai 2023, wedi cael ei chroesawu gan gleifion. Mae'r practis yn adolygu'r cydbwysedd rhwng apwyntiadau "Ar y Dydd" a "Trefnu Ymlaen Llaw" bob mis.

Bydd holiadur "Profiad y Claf" ar Safonau Mynediad yn cael ei gwblhau yn unol â'r rhwymedigaeth gytundebol a bydd y canlyniadau'n cael eu dadansoddi fel y bo'n briodol. Bydd y canlyniadau hyn a'r argymhellion dilynol yn cael eu trafod gan dîm Rheoli'r Practis/Partneriaid cyn mynd i'r afael â'r materion penodol a nodwyd.

Bydd canfyddiadau'n cael eu trafod hefyd ar lefel Gydweithredol a'u cyflwyno i'r Porth Gwybodaeth Gofal Sylfaenol fel y bo'n ofynnol.

<p>Mae ein canfyddiadau'n dangos nad oedd yr holl staff a oedd yn gweithio fel Swyddogion Llywio Gofal yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth addas yn eu rolau.</p>	<p>Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i ddangos bod staff sy'n gweithio fel Swyddogion Llywio Gofal wedi cael hyfforddiant priodol i gyflawni eu rôl.</p>	<p>Esboniodd y Partneriaid hanes diweddar y practis a gwnaethant nodi'n glir uchelgeisiau'r Practis, gan gynnwys y dull arloesol o recriwtio Rheolwyr Clinigol A Busnes hynod brofiadol a gwybodus, y mae'r ddau ohonynt yn benodiadau diweddar i'r Practis.</p> <p>Mae'r Partneriaid yn cydnabod efallai nad yw'r staff yn teimlo iddynt gael eu cefnogi yn ystod y misoedd diwethaf ac maent wedi ymrwymo i feithrin a datblygu'r staff i sicrhau y cânt eu gwerthfawrogi.</p> <p>Mae cynllun recriwtio cynhwysfawr wedi llwyddo i benodi aelodau staff newydd mewn sawl maes o'r busnes (gan gynnwys Llywio Gofal) a chlustnodwyd amser hyfforddi dynodedig i'r holl staff gwblhau hyfforddiant priodol. Cynhelir cyfarfodydd gweithredol wythnosol gyda'r</p>	<p>Tîm yr Uwch-reolwyr</p>	<p>Hydref 2023</p>
-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	----------------------------	--------------------

		<p>Rheolwyr a'r Arweinwyr Tîm ac eir i'r afael â materion staff wrth iddynt ddigwydd, lle y bo'n briodol.</p> <p>Mae'r gydberthynas rhwng aelodau o'r staff a'r uwch dîm yn wych a chaiff staff eu hannog i godi materion a chynnig awgrymiadau.</p> <p>Bydd sesiynau Hyfforddi a Datblygu Mewnol yn cael eu defnyddio i archwilio materion fel rhan o rwymedigaeth gytundebol Bwrdd Iechyd y Brifysgol i ddarparu sesiynau dysgu gwarchoddedig.</p>		
<p>Ni allai'r practis ddangos tystiolaeth o'r hyfforddiant yr oedd staff wedi'i gael i weithio fel Swyddogion Llywio Gofal.</p>	<p>Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i ddangos bod staff sy'n gweithio fel Swyddogion Llywio Gofal wedi cael hyfforddiant priodol i gyflawni eu rôl.</p>	<p>Mae'r holl staff wedi cwblhau'r hyfforddiant e-ddysgu "Llywio Hanfodion Gofal" perthnasol ac mae unrhyw aelod newydd o'r staff yn cwblhau hwn fel rhan o'r rhaglen sefydlu ac fel y bo'n ofynnol yn gytundebol, a hynny o fewn tri mis o'r dyddiad dechrau.</p> <p>Cyflawnwyd a gwiriwyd y rhwymedigaeth hon o dan</p>	<p>Rheolwr Busnes y Practis</p>	<p>Gorffennaf 2023</p>

		delerau cyfamodol y Safonau Mynediad.		
Ni chawsom sicrwydd bod potensial a pheryglon gwirioneddol wedi'u nodi a chamau gweithredu eu rhoi ar waith i liniaru'r risg o niwed neu anaf i staff neu gleifion.	Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i gwblhau asesiad risg addas ac i roi cynllun gweithredu priodol ar waith i reoli unrhyw risgiau a nodwyd.	Mae'r Practis wedi tanysgrifio i Wasanaeth Cydymffurfio a bydd adolygiad annibynnol llawn o'r holl ofynion lechyd a Diogelwch ac Aseiad Risg yn cael ei gynnal. Eir i'r afael ag unrhyw faterion sy'n weddill a bydd camau priodol yn cael eu cwblhau, gan gynnwys cyflwyno Aseidiadau Risg priodol.	Rheolwr Busnes y Practis	Rhagfyr 2023
Nid oedd cofnod yn dangos bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau.	Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i gefnogi'r aelodau staff hynny y mae'n ofynnol iddynt wneud hynny, er mwyn cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau ar lefel briodol.	Roedd yr holl staff priodol wedi cwblhau eu hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau a chaiff cofnod parhaus ei gynnal i fonitro a rheoli cydymffurfiaeth staff.	Rheolwr Clinigol y Practis	Medi 2023
Nid oedd cofnod yn dangos bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu.	Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i gefnogi'r aelodau staff hynny y mae'n ofynnol iddynt wneud hynny, er mwyn cwblhau hyfforddiant diogelu ar lefel briodol.	Mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn, fel y bo'n briodol. Caiff cofnod parhaus ei gynnal i fonitro a rheoli cydymffurfiaeth staff.		

<p>Ni allai'r practis ddangos y caiff arferion gorau, canllawiau cenedlaethol a phroffesiynol eu trafod yn rheolaidd a'u rhannu â'r tîm clinigol.</p>	<p>Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i ddangos bod canllawiau arfer gorau, cenedlaethol a phroffesiynol perthnasol yn cael eu trafod a'u rhannu'n rheolaidd â'r tîm clinigol.</p>	<p>Mae'r practis yn cynnal cyfarfodydd clinigol misol gyda phob clinigydd sydd wedi'i wahodd i gymryd rhan Mae gan y cyfarfodydd hyn agenda a chymerir cofnodion ohonynt.</p> <p>Caiff Rhybuddion a diweddariadau clinigol GIG Cymru priodol eu hanfon drwy e-bost yn rheolaidd at bob clinigydd. Bydd y rhain yn cael eu cofnodi ar yr Agenda misol fel cyfeirbwynt ar gyfer yr holl gyfathrebiadau sy'n dod i mewn er mwyn tynnu sylw at eu pwysigrwydd a chofnodi iddynt gyrraedd yn ddiogel.</p> <p>Bydd strwythur a mynychder y Cyfarfodydd Clinigol presennol yn cael eu hadolygu i sicrhau bod amser dynodedig ar gael i drafod arferion gorau ac i rannu dysgu.</p>	<p>Rheolwr Clinigol y Practis</p>	<p>Hydref 2023</p>
<p>Nid oedd cofnodion y cleifion yn cynnwys manylion bob amser o ran a oedd hebryngwr wedi'i gynnig ac a oedd y</p>	<p>Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i gofnodi'n gyson yng nghofnod y claf a oedd hebryngwr wedi'i gynnig i'r claf</p>	<p>Cafodd pob clinigydd ei atgoffa o God Read a oedd yn Cynnig Hebryngwr ynghyd â'r ymateb priodol.</p>	<p>Rheolwr Clinigol y Practis</p>	<p>Medi 2023</p>

cynnig wedi'i dderbyn neu ei wrthod	ac a oedd y cynnig wedi'i dderbyn neu ei wrthod.			
Mae ein canfyddiadau'n dangos bod angen gwella'r gydberthynas waith rhwng rheolwyr a'r tîm o staff.	Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i ymateb i'r sylwadau llai ffafriol gan y staff a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad hwn.	Mae cyfarfodydd agored a gonest rhwng y Rheolwyr a'r staff yn dadlau'r canfyddiadau hyn. Awgrymodd adborth y staff fod un unigolyn wedi cyflwyno sawl Ffurflen Adborth Staff a oedd yn cynnwys cyhuddiadau ffug a di-sail. Mae sefydlogrwydd yn y gweithlu a chyflwyno gweithdrefnau a phrosesau gweithredol clir yn ddiweddar wedi gwella morâl ac mae cydberthynas gytûn yn amlwg ym mhob un o feysydd y Practis	Y Tîm Partneriaid a Rheoli	Medi 2023
Nid oedd cofnod bod pob aelod o'r staff wedi darllen rhai o bolisiau/canllawiau'r practis.	Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i ddangos bod y staff yn ymwybodol o gynnwys polisiau a gweithdrefnau ysgrifenedig y practis.	Neilltuwyd amser hyfforddi dynodedig i'r holl staff gwblhau hyfforddiant priodol. Caiff 2 awr o Amser Hyfforddi ei neilltuo bob mis i bob aelod o'r staff gwblhau hyfforddiant sy'n weddill.	Y Tîm Rheoli	Hydref 2023

		Bydd sesiynau tîm wyneb yn wyneb y cael eu trefnu ar ôl i Fwrdd Iechyd y Brifysgol gytuno ar ddyddiadau a strwythur y sesiynau DPP mewnol dynodedig.		
Ni allem fod yn sicr bod aelodau o staff wedi'u recriwtio'n ddiogel.	Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i sicrhau y caiff aelodau newydd o staff eu recriwtio'n ddiogel ac i ddangos bod y staff presennol yn addas i weithio yn y practis.	<p>Mae'r gwaith o recriwtio pob aelod o'r staff bellach yn dilyn rhestr wirio i sicrhau bod gan yr holl staff wiriad cyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (neu y caiff Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ei gwblhau gyda nhw/ar eu rhan) ac y gofynnir am eirdaon.</p> <p>Mae pob cynnig swydd yn tynnu sylw at yr angen am eirdaon a gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.</p> <p>Mae Cynnig Swydd a Chontract Cyflogaeth yn nodi'n glir y bydd cyfnod prawf fel y bo'n briodol.</p> <p>Bydd archwiliad llawn o'r holl Gofnodion Staff yn cael ei</p>	Rheolwr Busnes y Practis	Medi 2023

		gynnal i nodi a oes bylchau amlwg a bydd cofnodlyfr rheoli rheolwyr yn cael ei gyflwyno i sicrhau yr eir ar drywydd diweddariadau blynyddol. Eir i'r afael ag unrhyw anghysondebau i sicrhau bod cofnodion cyflawn a chywir yn bodoli.		
Mae ein canfyddiadau'n dangos na chafodd pob aelod o'r staff ei gofnodi ar y matrices hyfforddiant staff.	Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i sicrhau y caiff pob aelod o'r staff ei gofnodi ar y matrices hyfforddiant.	Caiff pob aelod o'r staff ei gynnwys ar y Matrics.	Rheolwr Busnes y Practis	Medi 2023
Yn ogystal, roedd disgwyl i'r rhan fwyaf o'r staff fynychu hyfforddiant diweddarau ar y rhan fwyaf o'r pynciau ymhen un mis neu lai.	Mae'n ofynnol i'r practis roi diweddariad i AGIC ar gydymffurfiaeth y staff ar gyfer hyfforddiant gorfodol, ynghyd â manylion ynglŷn â'r ffordd y bydd cydymffurfiaeth â hyfforddiant yn cael ei chynnal.	Neilltuwyd amser hyfforddi dynodedig i'r holl staff gwblhau hyfforddiant priodol. Caiff 2 awr o Amser Hyfforddi ei neilltuo bob mis i bob aelod o'r staff gwblhau hyfforddiant sy'n weddill.		
Mae ein canfyddiadau'n dangos na chafodd pob aelod o'r staff arfarniad blynyddol o'u gwaith.	Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i sicrhau bod yr holl staff yn cael arfarniad blynyddol o'u gwaith ac i	Bydd yr holl staff yn cael arfarniad blynyddol yn ystod y flwyddyn bresennol a bydd adolygiadau blynyddol yn cael eu cyflwyno.	Y Tîm Rheoli	Rhagfyr 2023

	gytuno ar gynlluniau datblygiad proffesiynol unigol fel y bo'n briodol.			
Mae ein canfyddiadau'n dangos efallai nad yw'r staff yn ymwybodol bob amser o weithdrefn gwyno'r practis	Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i wneud cleifion yn ymwybodol o weithdrefn gwyno'r practis.	Mae'r Practis yn dilyn polisi Gweithio i Wella. Mae taflenni ar gael ar y ddesg flaen a chaiff y rhain eu hysbysebu ar y wefan. Gall cleifion gwyno mewn person, ar lafar, yn ysgrifenedig neu ar-lein.	Rheolwr Busnes y Practis	Medi 2023
Mae ein canfyddiadau'n dangos nad oedd hysbysiad preifatrwydd y practis ar gael yn rhwydd i'r cleifion gael gafael arno.	Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC ynglŷn â sut y gwneir yr hysbysiad preifatrwydd ar gael yn rhwydd ac yn hawdd i gleifion gael gafael arno. Dylid ystyried canllawiau a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth).	Mae hysbysiad preifatrwydd ar gael ac yn cael ei arddangos yn Ystafell Aros y Dderbynfa. Bydd Hysbysiad Preifatrwydd wedi'i ddiweddarau yn cael ei adolygu ac ar gael trwy Wefan newydd y Practis, a fydd yn fyw o fis Hydref 2023 ymlaen. Byddwn yn addasu poster cyfredol y practis er mwyn cynnwys cod QR sy'n rhoi mynediad i'r polisi sy'n cael ei arddangos ar y wefan.	Rheolwr Busnes y Practis	Hydref 2023
Mae ein canfyddiadau'n dangos bod y practis yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd. Fodd bynnag,	Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i ddangos effeithiolrwydd y gwelliannau a roddwyd ar waith gan	Fel y disgrifiwyd uchod. Mae'r Tîm Rheoli newydd gael ei recriwtio ac mae ganddo weledigaeth glir ar sut i reoli		

y chydig iawn o dystiolaeth oedd i ddangos effeithiolrwydd y gwelliannau a roddwyd ar waith gan y practis a sut mae adborth wedi'i rannu â thîm ehangach y practis.

y practis (o ganlyniad i'r gweithgareddau gwella ansawdd) a sut mae adborth wedi'i rannu â thîm ehangach y practis.

a threfnu pob agwedd ar staff a rheolaeth weithredol. Rhoddwyd croeso i'r gwaith o gyflwyno canllawiau a phroses weithredol glir ac mae'r strwythur newydd yn cynnwys cyfarfodydd gweithredol dynodedig i adolygu perfformiad a mynd i'r afael â materion wrth iddynt godi. Caiff prosesau newydd eu monitro a'u hadolygu a chaiff staff eu hannog i roi adborth ar eu profiadau.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Mark Gall

Teitl swydd: Rheolwr Busnes y Practis

Dyddiad: 25 Medi 2023